Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.




**Rhifyn 345 (Cymru) – 2 Awst 2023**

## Deddf Etholiadau: diweddariad o ran deddfwriaeth a chanllawiau

Gosododd Llywodraeth y DU dri Offeryn Statudol gerbron y Senedd ar 6 Gorffennaf yn ymwneud â mesurau'r Ddeddf Etholiadau:

- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio drwy'r Post a Phleidleisio drwy Ddirprwy etc) (Diwygiad) 2023 - mae'r rhain yn cwmpasu'r gwasanaeth gwneud cais am bleidlais absennol ar-lein a newidiadau i drefniadau pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy.
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio’r Etholfraint ac Adolygu Cymhwystra) 2023 – mae'r rhain yn cwmpasu'r newidiadau i hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE.
- Rheoliadau Etholiadau Maerol ac Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Deisebau Adalw a Refferenda (Cyfrinachedd Pleidleisio, Ymgeiswyr a Dylanwad Gormodol) 2023 – mae'r rhain yn cwmpasu ystod o fesurau eraill o'r Ddeddf, gan gynnwys y gosb etholiadol newydd am fygwth.

Ymhellach i osod yr Offerynnau Statudol hyn, rydym wedi diweddaru ein canllawiau cynllunio ystyriaethau allweddol, gan gynnwys i adlewyrchu'r trefniadau pontio pleidleisio absennol fel y nodir yn yr Offeryn Statudol Ceisiadau Pleidleisio Absennol Ar-lein/Rheoliadau Pleidleisio drwy'r Post a Phleidleisio drwy Ddirprwy, sy'n wahanol i'r rhai y darperir ar eu cyfer yn y fersiwn cynharach o'r Offeryn Statudol a gyhoeddwyd ac a oedd wedi llywio ein rhagdybiaethau cynllunio gwreiddiol. Rydym hefyd wedi cynnwys dolen i'n canllawiau ar adolygiadau dosbarthiadau pleidleisio a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Bydd y canllawiau ystyriaethau allweddol yn parhau i fod yn ddogfen fyw wrth i fanylion pellach ddod i'r amlwg. Ychwanegwyd cofnod o newidiadau i’r canllawiau i'ch helpu i nodi'n hawdd pa newidiadau a wnaed, a byddwn hefyd yn tynnu sylw at welliannau neu ychwanegiadau pellach drwy'r Bwletin fel arfer.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Deddf Etholiadau: diweddariad o ran deddfwriaeth a chanllawiau**

Dolenni i ddeddfwriaeth newydd a’n dogfen ystyriaethau allweddol sydd wedi’i diweddaru i gefnogi Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyda chynllunio ar gyfer cam nesaf newidiadau’r Ddeddf Etholiadau.

**Adnoddau ID Pleidleisiwr**

Gwybodaeth am adnoddau digidol ac argraffu sydd wedi'u diweddaru, a dolenni iddynt, i helpu codi ymwybyddiaeth o'r gofyniad ID pleidleisiwr.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf**

## Adnoddau ID Pleidleisiwr

Rydym wedi cyhoeddi adnoddau ID pleidleisiwr digidol ac argraffadwy sydd wedi'u diweddaru fel y gellir eu defnyddio nawr ar gyfer unrhyw etholiad sy'n gofyn am ID ffotograffig i'ch helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gofyniad, a chefnogi pleidleiswyr sy'n llai tebygol o fod â math o ID a dderbynnir. Mae'r adnoddau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r pecyn adnoddau ID Pleidleisiwr hwn yn cynnwys:

- Arweiniad i staff a gwirfoddolwyr
- Llyfryn i bleidleiswyr
- Dalen fewnosod cryno A5 (i'w ddefnyddio mewn postiadau gan gyngor)
- Posteri
- Baneri y we
- Templedi adnoddau cyfryngau cymdeithasol
- Templed ar gyfer y we a chopi ar gyfer cylchlythyr
- Adnoddau i'r wasg

I gefnogi pleidleiswyr anabl, rydym wedi cynhyrchu gwybodaeth yn y fformatau hygyrch canlynol:

- Braille
- Sain
- Testun plaen
- Hawdd eu darllen
- Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

Rydym hefyd wedi cyhoeddi adnoddau sydd wedi'u teilwra at anghenion pobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio'n ddienw, neu a allai elwa o wneud hynny, megis y sawl sy'n goroesi cam-drin domestig.

**Adnoddau is-etholiad Senedd y DU**
Pe bai is-etholiad Senedd y DU yn cael ei alw yn eich ardal chi, bydd adnoddau pwrpasol ychwanegol – gan gynnwys poster, graffig cyfryngau cymdeithasol ac atodiad A5 – yn cael eu rhannu'n uniongyrchol â chi i'ch helpu i godi ymwybyddiaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch ein hadnoddau, cysylltwch â ni yn partners@electoralcommission.org.uk.

**Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.electoralcommission.org.uk
© Y Comisiwn Etholiadol 2023